Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Adroddiad (SLC (3) 03-10)

Dyddiad: 28 Ionawr 2009
Amser: 9.00am
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd

CYNNWYS

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 28 Ionawr 2010. Roedd yr Aelodau Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Janet Ryder AC, Mike German AC, William Graham AC, Alun Davies AC a Rhodri Morgan AC. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2 a 15.3

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC381 - Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 13 Ionawr 2010. Fe'u gosodwyd ar 14 Ionawr 2010. Yn dod i rym ar 4 Chwefror 2010

SLC382 - Gorchymyn Rheoli Salmonela mewn Heidiau o Dyrcwn (Cymru) 2010
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 13 Ionawr 2010. Fe'i gosodwyd ar 15 Ionawr 2010. Yn dod i rym ar 5 Chwefror 2010

Rheoliadau Traffordd yr M4 (Cyffordd 24, Cyfnewidfa Coldra, Casnewydd) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2010
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 14 Ionawr 2010. Fe'u gosodwyd ar 15 Ionawr 2010. Yn dod i rym ar 15 Chwefror 2010

Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reolau Sefydlog 15.2 a/neu 15.3

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC373 - Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 17 Rhagfyr 2009. Fe'u gosodwyd ar 21 Rhagfyr 2009. Yn dod i rym ar 21 Ionawr 2010

SLC375 - Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 21 Rhagfyr 2009. Fe'u gosodwyd ar 22 Rhagfyr 2009. Yn dod i rym ar 25 Ionawr 2010

SLC376 - Rheoliadau Bwyd (Jeli Cwpan Fach) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 21 Rhagfyr 2009. Fe'u gosodwyd ar 23 Rhagfyr 2009. Yn dod i rym ar 20 Ionawr 2010

Wedi ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwyntiau y cyflwynwyd adroddiad arnynt gan y Pwyllgor, nododd yr Aelodau bod y Llywodraeth wedi derbyn y pwyntiau hynny, a'i bod yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth diwygio ar y cyfle cyntaf. Roedd un o'r pwyntiau yn un brys, gan ei fod yn ymwneud ag anghysondeb rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg o ran pa mor hir y gellir carcharu person fel cosbedigaeth ac felly penderfynodd y Pwyllgor ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn iddi egluro'r term "ar y cyfle cyntaf posibl".

SLC381 - Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 13 Ionawr 2010. Fe'u gosodwyd ar 14 Ionawr 2010. Yn dod i rym ar 4 Chwefror 2010

Mae adroddiadau'r Pwyllgor o dan Rheol Sefydlog 15.2 ar y Rheoliadau hyn ynghlwm yn Atodiadau 1-4.

Unrhyw faterion eraill

Ymchwiliadau'r Pwyllgor: Ymchwiliad i fonitro canlyniadau Adroddiadau'r Pwyllgor ar Offerynnau Statudol

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ar lafar gan Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cynulliad Cymru, a gynrychiolwyd gan Jeff Godfrey, Cyfarwyddwr yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol; Elisabeth Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol; ac Alun Jenkins, Pennaeth y Tîm Rheoli Deddfwriaeth.

Gohebiaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor ymatebion y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol a'r Cwnsler Cyffredinol i lythyrau'r Cadeirydd ynghylch SLC357 - Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2009 a'r Rheoliadau Cod Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Is-ddeddfwriaeth.

SLC357 - Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2009: Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Rheoliadau hyn ar 9 Rhagfyr 2009 a nododd anghysondeb rhwng y Memorandwm Esboniadol a'r Nodyn Esboniadol. Roedd y Memorandwm yn datgan na

chafodd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei baratoi gan nad oedd y ddeddfwriaeth yn cael unrhyw effaith arwyddocaol ar Gymru, tra bod y Nodyn Esboniadol yn gwrth-ddweud hyn, gan ddatgan bod asesiad effaith rheoleiddiol wedi cael ei baratoi. Er y cytunodd y Pwyllgor i beidio â gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau hyn, ysgrifennodd y Cadeirydd at y Dirprwy Weinidog yn ofyn am eglurhad. Nododd y Pwyllgor ymateb y Dirprwy Weinidog a oedd yn derbyn bod y Nodyn Esboniadol yn anghywir. Cafodd y gwall ei gywiro cyn cyhoeddi'r Rheoliadau.

Cod Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Is-ddeddfwriaeth:
Bu'r Pwyllgor yn ystyried Cod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer Is-ddeddfwriaeth a'r canllawiau atodol a gyhoeddwyd ar gyfer staff mewn perthynas â'r Cod ym mis Tachwedd 2009. Roedd y Pwyllgor yn ystyried y Cod Cymreig i fod yn gynhwysfawr. Gofynnodd yr Aelodau i'r Cwnsler Cyffredinol a oedd y Llywodraeth yn bwriadu adolygu gweithrediad y Cod ac, os felly, beth oedd yr amserlen debygol.

Nododd y Pwyllgor ymateb y Cwnsler Cyffredinol a bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu arolygu gweithrediad y Cod a'i adolygu'n rheolaidd.

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi), penderfynodd y Pwyllgor wahardd y
cyhoedd o weddill y cyfarfod i drafod y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd yma ar gyfer yr Ymchwiliad i i'r Datblygiadau yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys Eithriadau i Faterion a monitro canlyniadau Adroddiadau'r Pwyllgor ar Offerynnau Statudol.

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

28 Ionawr 2009

Atodiad 1

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
(SLC(3)-03-10)

SLC373

Adroddiad drafft y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Teitl:- Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2009

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cymorth i un myfyriwr cymwys sy'n dilyn cwrs dynodedig ym maes addysg uwch yn yr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2010. Mae grantiau at gostau byw a chostau eraill, lwfans myfyriwr anabl a grant ar gyfer dibynyddion ar gael ar gyfer y myfyriwr cymwys. Mae'r Rheoliadau hyn yn disgrifio'r meini prawf cymhwystra ar gyfer y grantiau, y weithdrefn ar gyfer gwneud cais a'r dull o gyfrifo swm y grant sy'n daladwy. Mae'r Rheoliadau yn disgrifio hefyd y trefniadau ar gyfer talu'r grantiau ac adennill unrhyw ordaliadau. Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2008 i'r graddau a nodir yn rheoliadau 4 a 5.

Craffu technegol

O dan Reol Sefydlog 15.2, gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

Mae rheoliad 28 y testun Saesneg yn datgan, "The contribution calculated in accordance with regulation 27 must be applied in accordance with regulation 29". Tra bod rheoliad 28 y testun Cymraeg yn datgan, "Rhaid i'r cyfraniad a gyfrifir yn unol â rheoliad 33 gael ei gymhwyso yn unol â rheoliad 27," pan nad oes rheoliad 33 yn y Rheoliadau. [Rheol Sefydlog 15.2 (vii) ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg] a [Rheol Sefydlog 15.2 (vi) ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol].

Craffu ar ragoriaethau

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 15.3 mewn perthynas â'r offeryn/offeryn drafft hwn ar yr adeg hon.

Janet Ryder AC

Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

28 Ionawr 2010

Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:

Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2009

"Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn y pwyntiau yn yr adroddiad ac mae'n bwriadu cywiro'r camgymeriad ar y cyfle cyntaf posibl sy'n debygol o godi o fewn y 6 mis nesaf a beth bynnag cyn 1 Medi 2010. (Mae'r testun Saesneg yn gywir. Bydd y testun Cymraeg yn cael ei ddiwygio i gyd-fynd â'r testun Saesneg.)"

Atodiad 2

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

(SLC(3)-03-10)

SLC375

Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Teitl: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi'r elfennau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a bwyd yn Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 ar reolaethau swyddogol bwyd anifeiliaid a bwyd, iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid ("Rheoliad 882/2004") a Rheoliad (EC) Rhif. 669/2009 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor, o ran y lefel uwch o reolaethau swyddogol ar fewnforio bwyd anifeiliaid penodol a bwyd penodol nad yw'n dod o anifeiliaid, ac sy'n diwygio Penderfyniad 2006/504 ("Rheoliad 669/2009"). Mae'n dynodi'r awdurdodau cymwys ac yn creu cosbau a thramgwyddau perthnasol. Maent yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi rheolaethau swyddogol o ran bwyd neu fwyd anifeiliaid nad yw'n dod o anifeiliaid o drydedd wlad a'i fod yn debyg o fod yn risg ddifrifol, a gaiff ei fewnforio i'r gymuned. Maent yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2007 (S.I. 2007/3294).

Craffu technegol

O dan Reol Sefydlog 15.2, gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

(i) Mae Rheoliad 2(4) (a) yn cyfeirio at swyddogaethau o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a ddyrennir gan orchymyn o dan adran 7 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 i Awdurdod Iechyd Porthladd. Mae Adran 7 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn ymwneud ag ardal iechyd porthladd ("Port Health District") a'r awdurdod ar gyfer Porthladd Llundain ("Authority for the Port of London") ac felly nid yw'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn [Rheol Sefydlog. 15.2 (vi) Drafftio diffygiol].

(ii) Mae Rheoliad 32 (2) y testun Saesneg yn datgan "If an authorised officer of an enforcement authority proposes to take any of the measures referred to in Article 19 (1) (a) or (b) of Regulation 882/2004

in respect of feed or food he or she must serve a notice to that effect on the feed of food business operator..". Ar y llaw arall, mae Rheoliad 32 (2) y testun Cymraeg yn cyfeirio at "Erthygl 19 (1) (a) a (b)". [Rheol Sefydlog 15.2 (vii) ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft].

(iii) Mae Rheoliad 41 (1) (a) (Tramgwyddau a chosbau) yn cyfeirio at "unrhyw berson sydd yn mynd yn groes i unrhyw rai o'r darpariaethau penodedig neu yn methu â chydymffurfio â hwy..". Nid yw'n datgan beth yw'r darpariaethau penodedig hynny. [Rheol Sefydlog 15.2 (vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol].

Craffu ar ragoriaethau

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 15.3 mewn perthynas â'r offeryn/offeryn drafft hwn ar hyn o bryd.

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

28 Ionawr 2010

Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009

"Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn y pwyntiau yn yr adroddiad ac mae'n bwriadu gwneud deddfwriaeth ddiwygio ar y cyfle cyntaf posibl".

Atodiad 3

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

(SLC(3)-03-10)

SLC376
Adroddiad Drafft y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Teitl: Rheoliadau Bwyd (Jeli Cwpan Fach) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2009

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru yn rhoi ar waith Benderfyniad y Comisiwn 2004/374/EC sy'n atal dros dro osod ar y farchnad a mewnforio jeli cwpanau bach sy'n cynnwys yr ychwanegion bwyd E400, E401, E402, E403, E404, E405, E406, E407, E407a, E410, E412, E413, E414, E415, E417 ac/neu E418. Mae'r jeli cwpanau bach hyn yn cyfuno sawl ffactor risg o ganlyniad i'w hansawdd, eu siâp, eu maint a'u dull amlyncu, gan beri risg eu bod yn aros yn rhwystr yn y gwddf ac achosi i berson dagu. Mae'r risg hefyd yn tarddu o nodweddion cemegol a ffisegol yr ychwanegion. Yn ychwanegol, ni fyddai rhybuddio trwy labelu yn ddigonol i warchod iechyd dynol, yn arbennig gyda golwg ar blant.

Craffu Technegol

O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.

Adroddir ar y pwyntiau a ganlyn o dan Reol Sefydlog 15.2(vi) (drafftio diffygiol).

- Mae teitl y Rheoliadau yn Saesneg yn cynnwys y geiriau "Jelly Mini-Cups" hy defnyddir ffurf luosog yr enw. Yn Gymraeg mae'r geiriau cyfatebol "Jeli Cwpan Fach" yn defnyddio'r enw unigol yn y cyfieithiad o "Cups". Mewn cyferbyniad, yn rheoliad 2 ac wedyn drwy'r Rheoliadau lle ddefnyddir yr ymadrodd "mini-cups" yn y testun Saesneg, yn y testun Cymraeg defnyddir y geiriau "cwpanau bach" hy yn yr achosion hyn defnyddir yr enw lluosog. Credir bod angen cywiro'r Rheoliadau er mwyn sicrhau bod cysondeb drwyddynt.

- Yn rheoliad b 2 (3)(c) gwneir cyfeiriad at siroedd metropolitanaidd. Gan nad oes siroedd o'r fath yng Nghymru mae'r cyfeiriad hwn yn amhriodol.

Mae Rheoliad 3(5) yn nodi'r cosbedigaethau ar gyfer mynd yn groes i reoliadau 3(1) neu 3(3). Mae'r testun Saesneg yn darparu ei bod yn bosibl i berson gael ei garcharu am gyfnod heb fod yn fwy na 3 mis; mae'r testun Cymraeg yn darparu bod y cyfnod yn un sydd dros 3 mis. [Rheol Sefydlog 15.2 (vii)]

Craffu ar Rinweddau

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.3 mewn cysylltiad â'r offeryn/offeryn drafft hwn:

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

28 Ionawr 2010

Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:

Rheoliadau Bwyd (Jeli Cwpan Fach) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2009

"Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn y pwyntiau yn yr adroddiad ac mae'n bwriadu gwneud deddfwriaeth ddiwygio ar y cyfle cyntaf posibl".

Atodiad 4

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

(SLC(3)-03-10)

SLC381

Teitl: Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 98/83/EC (ar ansawdd dŵr a fwriedir i'w yfed gan bobl, OJ Rhif 330, 5.12.1998, t. 32) mewn perthynas â chyflenwadau dŵr preifat. Diffinnir "cyflenwad preifat" yn adran 93(1) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 fel cyflenwad a ddarperir ac eithrio gan ymgymerwr dŵr neu gyflenwr dŵr trwyddedig.

Craffu technegol

O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn:-

(1) Mae Rheoliad 12 yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdod lleol yn cadw cofnodion mewn perthynas â phob cyflenwad preifat yn ei ardal yn unol ag Atodlen 4. Mae Rheoliad 13 yn ei gwneud yn ofynnol bod pob awdurdod lleol yn anfon y wybodaeth hon at Brif Arolygydd Dŵr Yfed Cymru a Gweinidogion Cymru, os gofynnir amdani, erbyn 31 Gorffennaf 2010 ac erbyn 31 Ionawr ym mhob blwyddyn ddilynol. Mae Atodlen 4, sy'n uniongyrchol berthnasol i Reoliad 12 a 13, yn datgan "Rhaid i awdurdod lleol, cyn [ ], gofnodi nifer y cyflenwadau preifat yn ei ardal...". Ni nodir dyddiad yn yr Atodlen ac felly mae'n creu ansicrwydd. [Rh.S. 15.2 (vi) ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol].

Craffu ar rinweddau

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 15.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn ar yr adeg hon.

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

28 Ionawr 2010

Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:

Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010

Mae'r Llywodraeth yn derbyn yr uchod a bydd yn gwneud Rheoliadau i ddiwygio Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010